

Cymorth arbenigol & medrus yn dilyn lladdiad domestig neu hunanladdiad aelod o'ch teulu

Buom yno ein hunain a deallwn eich bod efallai'n teimlo fel pe baech wedi eich llethu gyda gwybodaeth. Gall ein Heiriolwyr arbenigol eich helpu.



Beth rydym yn ei wneud:

Ein blaenoriaeth yw eirioli dros deuluoedd sy'n mynd drwy brofedigaeth ar ôl lladdiad neu hunanladdiad domestig.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn:

- Gwrando arnoch chi gyda dealltwriaeth a thosturi.
- Sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed.
- Cynnig Eiriolwyr arbenigol a medrus.
- Defnyddio'r arbenigedd hwnnw i eirioli drosoch chi yn ystod adolygiadau lladdiad domestig, cwestau, adolygiadau achosion difrifol, adolygiadau iechyd meddwl, ac ymchwiliadau tebyg.
- Dod â theuluoedd at ei gilydd er mwyn rhannu eu stori ac elwa ar gefnogaeth gan gymheiriaid.

Mae ein gwasanaeth yn annibynnol, am ddim, ac wedi ei arwain gennych chi.

Pwy ydym ni?

Mae gan AAFDA dros 11 mlynedd o brofiad yn eirioli dros deuluoedd yn dilyn lladdiad neu hunanladdiad aelod o'u teulu neu gyfaill, yn dilyn cam-drin domestig. Cafodd AAFDA ei sefydlu wedi i'n sylfaenydd gollu aelodau o'i deulu i laddiad domestig.

Hyfforddwyd ein Heiriolwyr arbenigol a medrus yn drylwyr ac maen nhw'n wybodus iawn ynglŷn â holl agweddau cam-drin domestig a'r prosesau sy'n dilyn lladdiad neu hunanladdiad domestig. Mae gan bob un o'n Heiriolwyr brofiad uniongyrchol o gam-drin domestig difrifol, lladdiad domestig, neu hunanladdiad yn dilyn cam-drin domestig. Golyga hyn fod ein gwasanaeth yn un sy'n cael ei lywio gan gymheiriaid.

Beth mae teuluoedd wedi dweud wrthym ni:

"Fe wnaeth AAFDA fy ngrymuso i gael llais fy merch i wedi ei glywed"

"Roedd AAFDA fel modd i fyw"

"Allwn i ddim fod wedi mynd drwy'r broses hon heb fy eiriolwr"

"Fe wnaeth AAFDA fy arwain i gyfeiriad fyddai'n cael atebion i fy nghwestiynau"

Os ydych chi wedi colli aelod o'ch teulu neu gyfaill drwy laddiad domestig, neu hunanladdiad yn dilyn cam-drin domestig, rydym ni yma i'ch helpu.

Cysylltwch â ni drwy ihneflop@aafda.org.uk neu ffoniwch 07887 488464

9:00am – 5:00pm yw ein horiau swyddfa arferol ond mae'n bosib y gallwn dderbyn galwadau tu allan i'r oriau hyn.

Os nad ydym ar gael, gadewch neges a byddwn yn dod 'nôl atoch cyn gynted â phosib.

AAFDA LTD, Rhif Elusen 1185078, Rhif Cwmni 9527065 cofrestrwyd yng Nghymru & Lloegr

v1.3.0.3